Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Llifon

Groeslon
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7DT

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Llifon

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Bro Llifon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 113 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 23 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 6.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 8.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 79.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/11/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Llifon yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol lle mae parch, caredigrwydd a lles wrth galon bywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo.

Mae'r staff yn creu amgylchedd diogel a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a dysgu, ac o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol at eu gwaith ac yn cydweithio'n dda ag eraill. Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn hynod effeithiol ac yn darparu cymorth priodol ac amserol i'w cefnogi i wneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu llais y disgybl. Trwy amrywiaeth o bwyllgorau a phrosiectau, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arwain, rhannu syniadau a chyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae hyn yn datblygu eu hyder, eu hymwybyddiaeth foesol a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parch a goddefgarwch at eraill. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliannau, traddodiadau a chredoau gwahanol yn llwyddiannus.

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, gan gymhwyso'r medrau hyn yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae medrau mathemategol y disgyblion yn gryfder arbennig, gyda llawer yn datrys problemau ac yn rhesymu'n effeithiol.

Mae diwylliant cryf o hunanwerthuso a gwelliant parhaus yn bodoli yn yr ysgol. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ac yn gweithio'n arloesol i wella'r ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng yr ysgol a rhieni yn gryfder amlwg, gyda chyfathrebu effeithiol yn helpu rhieni i gefnogi dysgu a datblygiad eu plant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i ledaenu’r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a thu hwnt.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Bro Llifon yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â pharch a charedigrwydd. Mae arweinyddiaeth angerddol a gofalgar y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio’n ddiwyd i wireddu’r dyhead fod pob disgybl yn llwyddo ac yn ‘camu ymlaen gyda’i gilydd’.

Mae arweinwyr a staff yn dangos gwerthoedd cadarn ac ymddygiad proffesiynol o safon uchel, gan greu amgylchedd diogel, cynnes a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad y disgyblion yn cael eu cyfathrebu’n glir ac adeiladol, gan feithrin cymuned ddysgu sy’n seiliedig ar barch, empathi a thegwch. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos ymddygiad cadarn ac ymrwymiad cryf i’w dysgu ac maent yn dyfalbarhau’n fwriadus wrth weithio’n unigol a gyda grwpiau.

Un o gryfderau’r ysgol yw bod gan staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion disgyblion unigol. Mae’r pwyslais a roddir ar drafodaethau ymysg staff a gyda rhieni, ynghyd â chynnal asesiadau parhaus, yn cyfrannu’n llwyddiannus at lunio darlun clir a chyfredol o anghenion bob disgybl. Mae hyn yn arfogi’r staff i ymateb yn amserol i’w hanghenion, gan ddarparu’r gefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer.

Mae’r amryw bwyllgorau cynrychiolwyr disgyblion yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu syniadau a dylanwadu ar agweddau pwysig o’r ddarpariaeth. O ganlyniad i’r profiadau hyn, mae hyn yn datblygu hyder y disgyblion, eu hymwybyddiaeth foesol a’u dealltwriaeth o bwysigrwydd parch a goddefgarwch at eraill.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu diwylliannau a chredoau gwahanol ynghyd â hanes a thraddodiadau lleol a Chymreig.

Mae'r sesiynau cyd-addoli yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio mewn awyrgylch moesol ac ysbrydol.

### Ciplun: Arweinyddiaeth strategol yn hybu lles disgyblion a datblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth a'i hymroddiad amlwg i hybu lles disgyblion yn greiddiol i holl agweddau gwaith yr ysgol. Mae hyn yn creu amgylchedd cefnogol a chynhwysol sy'n annog disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac i lwyddo. Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r modd y mae'n hyrwyddo parch a goddefgarwch at eraill. Drwy bartneriaethau a phrosiectau llwyddiannus gyda'r 'Henaduriaeth Arfon', yn ogystal â gwaith pwyllgorau disgyblion amrywiol, mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol gan arwain prosiectau sy'n hybu gwerthfawrogiad rhieni a'r gymuned o ystyr heddwch. Yn ogystal, maent yn codi arian i gefnogi ysgol yn Nairobi ac, o ganlyniad, yn datblygu ymdeimlad disgyblion o berthyn i'w cymuned leol a chymuned ehangach y byd.

Mae athrawon a chymorthyddion yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â disgyblion. Mae'r amgylchedd dysgu a llawer o'r ardaloedd tu allan yn fannau ysgogol. Mae athrawon yn cyflwyno gwybodaeth yn ofalus ac yn meithrin disgwyliadau uchel gan ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn llwyddo.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ysgogi disgyblion ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd llwyddiannus. Mae addysgu'r athrawon yn gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu, ac mae adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Drwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus dros amser ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau llafar cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn mynegi eu barn, yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd ac yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth yn gynyddol hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. O oed cynnar, maent yn darllen â rhuglder a brwdfrydedd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trafod testunau ac awduron yn hyderus ac, ym mrig yr ysgol, mae'r disgyblion yn rhagfynegi'n gywir ac yn mynegi barn bwrpasol am gynnwys testunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau llythrennedd yn effeithiol ar draws ystod eang o gyd-destunau a meysydd y cwricwlwm. Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ffurfio llythrennau cynnar ac yn dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth dda o adnoddau

perthnasol i'w cefnogi. Erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddewis geirfa'n bwrpasol i ennyn diddordeb y darllenydd.

Cryfder nodedig o'r ysgol yw'r cynnydd ym medrau mathemateg ar draws yr ysgol. O ganlyniad i brofiadau a gweithgareddau dysgu diddorol a gynllunnir gan yr athrawon, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth greu graffiau a datrys problemau. Ar draws yr ysgol, mae gweithgareddau rhifedd yn herio disgyblion i gymhwyso ystod o uwch fedrau rhif yn effeithiol. Maent yn meithrin medrau digidol da o oedran ifanc, gan arddangos gallu cynyddol i'w cymhwyso'n hyderus mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae'r prosesau monitro a hunanwerthuso yn gadarn a thrylwyr, ac yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol yr ysgol yn glir. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i bennu blaenoriaethau priodol ac amserol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Trwy hyn, maent yn deall yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella.

Mae diwylliant effeithiol o fyfyrio a gwelliant parhaus wedi'i sefydlu yn yr ysgol. Mae staff yn arwain ar feysydd y cwricwlwm, gan fyfyrio ac adnabod meysydd i'w gwella yn gyson ac mae dysgu proffesiynol yn cefnogi blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol yn fwriadus.

### Ciplun: Grymuso medrau arweinyddiaeth staff i yrru gwelliant parhaus mewn diwylliant o hunanwella

Mae'r pennaeth wedi sefydlu dull creadigol a chynhwysfawr o gynllunio a darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyd-fynd yn agos â'u blaenoriaethau gwella. Mae systemau arweinyddiaeth hynod effeithiol wedi'u gwreiddio ar draws yr ysgol, gyda rolau arwain clir wedi'u dyrannu'n strategol yn unol â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Mae cefnogaeth fuddiol i staff arbrofi ac ymchwilio ac, o ganlyniad, maent yn arloesi gyda strategaethau a dulliau addysgu newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi ymchwilio i, a datblygu, ymagwedd gytûn at addysgu'r pum hyfedredd mathemategol. Trwy werthuso effaith eu gwaith yn rheolaidd, mae staff yn addasu eu harfer yn fedrus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at welliannau cynaliadwy yn ansawdd yr addysgu, ehangder y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion dros amser.

Mae'r berthynas gynhyrchiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder. Mae'r pennaeth yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion, yn ogystal â rhannu newyddion am ddigwyddiadau'r ysgol, yn amserol. Mae'r perthnasoedd cefnogol hyn yn grymuso rhieni i chwarae rôl weithredol yn nysgu eu plentyn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli’r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae’r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2026